Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Stocio eogiaid a sewin – cynlluniau lliniaru amgen

Yn dilyn ‘Ymgynghoriad ynglŷn â gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn stocio eog, stocio eog gan bartïon eraill, a dyfodol deorfeydd CNC’ a gynhaliwyd rhwng 4 Mawrth a 27 Mai 2014 mae’r papur hwn yn darparu gwybodaeth ychwanegol am y cynlluniau lliniaru amgen ar gyfer stocio eogiaid a sewin.

Tachwedd 2014

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

## Cyflwyniad

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Drwyddi draw mae'r cyfrifoldeb polisi am bysgodfeydd Cymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Mae CNC yn gyfrifol am reoleiddio pysgodfeydd mewndirol yng Nghymru (yn cynnwys eog, sewin, llysywod, brwyniaid Conwy a llysywod pendwll cyn belled â 6 morfilltir o'r glannau) ac mae ganddo ddyletswydd gyffredinol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i "gynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd". Gwneir hyn drwy roi deddfwriaeth ar waith, a thrwy waith sy'n cael ei ariannu'n allanol sydd wedi'i seilio ar weithredu y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru.

Fel corff newydd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn adolygu llawer o agweddau o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud i sicrhau eu bod yn cyflawni mor effeithiol â phosibl er budd pobl, yr economi a'r amgylchedd. Un rhaglen o'r gwaith hwn yw'r 'Agenda ar gyfer Newid', sy'n edrych ar sut mae CNC yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau pysgodfeydd mewndirol cynaliadwy i Gymru.

Fel rhan o hyn rydym yn ystyried ein holl weithgareddau pysgodfeydd. Ym mis Rhagfyr 2013 adolygasom ein gweithgarwch presennol o ran stocio eog, a gweithgareddau deorfeydd yn gysylltiedig â hynny. Yn yr adolygiad ystyriasom y sail resymegol a'r cyfiawnhad i weithgareddau CNC yn magu a stocio eog i afonydd Cymru, a goblygiadau hynny. Ystyriasom hefyd oblygiadau ein hadolygiad i eraill sydd am wneud gwaith stocio, a'n capasiti ni yn y gwaith hwn. Cynaliasom ymgynghoriad cyhoeddus llawn rhwng 4 Mawrth a 27 Mai 2014 i gael barn ar yr adolygiad a'i argymhellion a cheisio tystiolaeth newydd, cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Un o argymhellion yr adolygiad oedd y dylai'r holl waith at ddibenion lliniaru a chynyddu stociau eogiaid yng Nghymru a wneir gan CNC a thrydydd partïon ddod i ben. Hefyd, dylai CNC a phob parti sydd â diddordeb ddatblygu cynlluniau lliniaru amgen gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau adfer cynefinoedd i ddarparu manteision amgylcheddol ehangach a mwy cynaliadwy. Yn yr adborth i'r ymgynghoriad mynegwyd llawer iawn o ddiddordeb yn y cynlluniau lliniaru amgen y gellid eu gweithredu pe bai gwaith stocio lliniarol yn dod i ben. Diben y ddogfen hon yw nodi amrywiaeth o gynlluniau lliniaru amgen a sut y gellid eu gweithredu.

# Cynlluniau amgen i waith stocio lliniarol eogiaid

## Cefndir

Disgrifiodd ein hadolygiad o stocio eogiaid a deorfeydd sut mae gwaith stocio wedi cael ei ddefnyddio mewn dalgylchoedd ledled Cymru i 'liniaru', i raddau helaeth ar gyfer yr effeithiau a achoswyd trwy adeiladu croniadau i greu cronfeydd dŵr. Mae gwaith stocio lliniarol hefyd wedi cael ei wneud lle mae datblygiadau mawr fel morgloddiau a chynlluniau storfa bwmp trydan dŵr wedi cael eu hadeiladu.

Lle cafwyd y datblygiadau hyn, mae afonydd wedi cael eu gwneud yn anhygyrch neu mae cynefinoedd wedi cael eu gwneud yn llai addas i eogiaid a sewin, ac mae hyn wedi gostwng nifer y pysgod a gynhyrchir yn y dalgylchoedd yr effeithir arnynt. Mae gwaith stocio lliniarol wedi cael ei ddefnyddio mewn ymgais i wneud iawn am yr eogiaid a sewin ifanc a gollwyd, er mwyn codi stociau yn ôl i'w lefel naturiol.

## Adborth gan randdeiliaid

Yn ein hymgynghoriad ar stocio a deorfeydd cynigiasom y dylem roi'r gorau i waith at ddibenion lliniaru a chynyddu stociau, lleihau capasiti ein deorfeydd yn sylweddol ac ailgyfeirio'r adnoddau a ryddheid i gynlluniau lliniaru amgen a fyddai'n dod â mwy o fanteision i stociau pysgod a'r amgylchedd yng Nghymru.

Yn yr adborth i'r ymgynghoriad roedd sylwadau'r ymatebwyr yn cynnwys y canlynol:

- Byddai wedi bod yn fuddiol cael mwy o wybodaeth am gynlluniau lliniaru amgen yn nogfennau'r adolygiad a'r ymgynghoriad.
- Dylai unrhyw fesurau lliniaru amgen fod yn ychwanegol at rwymedigaethau arferol CNC.
- Ni fyddai gwaith adfer cynefinoedd ar ei ben ei hun yn ddigon i liniaru'r golled o ran nentydd silio a magu a achoswyd trwy greu croniadau.
- Awgrymwyd llawer o fesurau lliniaru amgen eraill gan gynnwys:
    - Adfer cynefinoedd ar raddfa fawr neu raddfa tirwedd er mwyn lleihau effeithiau amaethyddiaeth a choedwigaeth
    - Lleddfu asideiddio
    - Mwy o orfodi arfordirol
    - Rheoli ecsbloetio gyda gwialenni a rhwydi
    - Gwell llwybrau i bysgod heibio i rwystrau (gan gynnwys rhwystrau naturiol)
    - Lleihau effaith llygredd carthion a dŵr o fwyngloddiau
    - Dileu rhywogaethau estron goresgynnol

    - Adfer llifoedd mewn darnau lle tynnwyd gormod o ddŵr
    - Rheoli adar sy’n bwyta pysgod neu drin cynefinoedd i leihau ysglyfaethu gan adar
    - Adfer gwelyau graean a ddefnyddir i silio sydd wedi cael eu cywasgu
- Dylai fod gan bob dalgylch ‘gynllun lliniaru pysgodfeydd’ ac fel rhan ohono dylid nodi, meintioli, trafod a chytuno ar yr holl gynlluniau amgen, ac o bosibl eu cyflawni gyda chyfranogiad rhanddeiliaid
- Mae’n bosibl na châi digon o adnoddau eu cyfeirio i gynlluniau lliniaru amgen neu na chaent eu cyflawni o fewn cyfnod digon byr.
- Dylai’r adnoddau a gâi eu hailgyfeirio o waith stocio a deorfeydd gael eu cadw’n benodol am byth ar gyfer manteision lliniaru pysgodfeydd.

Mae’r ddogfen hon yn nodi’r argymhellion y bydd CNC yn eu dilyn wrth gyflawni cynlluniau amgen i liniaru effaith colli nentydd silio a magu eogiaid a sewin. Hefyd, mae’n cynnig proses y gallai cynlluniau lliniaru amgen gael eu cyflawni drwyddi gyda rhanddeiliaid ar lefel dalgylch.

## Datblygu cynlluniau lliniaru amgen

Ein dull o gyflawni cynlluniau lliniaru amgen fydd gweithio gyda rhanddeiliaid ar lefel dalgylch gan ddefnyddio dull cyson ledled Cymru.

### Egwyddorion

Dyma'r egwyddorion y bydd CNC yn eu dilyn wrth ddatblygu cynlluniau lliniaru amgen:

i. Bydd **'targed lliniaru'** yn cael ei gyfrifo a'i gyfleu yn nhermau arwynebedd neu'r gleisiaid eog a sewin a gynhyrchir yn flynyddol, i adlewyrchu'r niwed a achoswyd i bysgodfeydd wrth adeiladu croniadau a datblygiadau mawr eraill.

ii. **Caiff cynlluniau lliniaru amgen eu defnyddio i gyrraedd y targed lliniaru** a sicrhau y cynhyrchir rhagor o eogiaid a sewin yn naturiol.

iii. **Bydd cynlluniau lliniaru amgen yn ychwanegol at y 'gwaith bob dydd'** a fyddai'n cael ei wneud fel rhan o ddyletswyddau arferol CNC.

iv. Bydd **rhanddeiliaid lleol** yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu cynlluniau lliniaru amgen dros y cyfnod 2015-2020.

v. Caiff **gwaith monitro priodol** ei gyflawni i asesu manteision y cynlluniau lliniaru amgen a'u cyfraniad at y targed lliniaru.

Ein nod fydd cyflawni cynlluniau lliniaru amgen effeithiol a chynaliadwy fel na fydd unrhyw ofyniad na gwariant lliniaru parhaus. Efallai na fydd hyn yn bosibl ym mhob achos ac os felly efallai y bydd angen rhywfaint o ymrwymiad parhaus.

## Gwaith Lliniaru mewn Dalgylchoedd

Dyma'r dalgylchoedd afonydd sy'n gymwys ar gyfer cynlluniau lliniaru amgen o ganlyniad i groniadau a datblygiadau mawr eraill:

| Dalgylch | Rheswm dros liniaru | Lleoliad | Dan rwymedigaeth gyfreithiol i liniaru |
|---|---|---|---|
| Cleddau Ddu | Croniad | Llys y Frân | Dŵr Cymru |
| Tywi | Croniad | Llyn Brianne | Dŵr Cymru |
| Dyfrdwy | Croniad | Llyn Celyn | Neb |
| Seiont | Cynllun Pŵer Trydan Dŵr | Dinorwig ger Llanberis | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Taf | Morglawdd llanwol | Bae Caerdydd | Cyfoeth Naturiol Cymru (dod i ben 2020) |
| Gwy | Croniad | Cwm Elan | Neb |

Er nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith lliniaru ar gyfer cynlluniau Llyn Celyn (Dyfrdwy) a Chwm Elan (Gwy), ein nod beth bynnag fydd cyflawni'r cynlluniau lliniaru amgen yn y mannau hyn. Hefyd, er nad oes rhwymedigaeth gontractiol ar CNC i gynorthwyo rhaglen stocio Ymddiriedolaeth Mawddach hyd 2020, byddwn yn trafod opsiynau mwy cynaliadwy gyda'r Ymddiriedolaeth y bydd o bosibl eisiau eu hystyried yn lle stocio.

## Gweithgareddau Lliniaru Amgen

Mae'n bosibl y bydd cynlluniau lliniaru amgen a gaiff eu hariannu a'u cyflawni gan CNC a thrydydd partïon yn lle cynlluniau stocio lliniaru'n cynnwys cyfuniad o fesurau amgen gan gynnwys:

- Gwelliannau i lwybrau pysgod ar rwystrau naturiol rhannol i bysgod wrth iddynt fudo.
- Prosiectau adfer cynefinoedd ar raddfa tirwedd mewn rhagnentydd.
- Cynlluniau adfer cynefinoedd mewn afonydd.
- Adfer mannau silio sydd wedi cael eu cywasgu.
- Gwella mannau silio neu greu mannau silio artiffisial.
- Lleddfu effeithiau glaw asid.
- Unrhyw fentrau ychwanegol y mae rhanddeiliaid lleol a staff CNC yn cytuno y byddent o fantais.

## Proses cyflawni ar lefel dalgylch

Un rhan allweddol o'r gwaith o gyflawni cynlluniau lliniaru amgen ar lawr gwlad fydd sicrhau bod rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau amgen ac o bosibl yn y gwaith o'u cyflawni:

1. **Ffurfio grŵp rhanddeiliaid lleol**, neu ddefnyddio grŵp sy'n bodoli eisoes, i gynorthwyo CNC i ddatblygu a chyflawni cynlluniau lliniaru amgen.
2. **Meintioli targedau lliniaru unigol mewn afonydd** sydd wedi'u creu gan groniadau neu ddatblygiadau mawr eraill.
3. **Nodi a meintioli mantais opsiynau lliniaru amgen** a allai gyfrannu at y targed lliniaru.
4. **Trafod cynlluniau amgen gyda'r grŵp rhanddeiliaid**, nodi unrhyw opsiynau eraill a llunio rhestr wedi'i blaenoriaethu gydag awgrymiadau cytunedig ar gyfer gwaith archwilio safleoedd, a gaiff ei defnyddio i lunio '**Cynllun Lliniaru Pysgodfeydd'**.
5. Bydd arweinwyr **gwaith archwilio safleoedd** (CNC neu 3$^{ydd}$ partïon) yn asesu'r agweddau ymarferol ar gyflawni'r gwaith mae ei angen ar gyfer pob opsiwn ar y safle.
6. **Adolygu adborth o'r archwiliadau safleoedd** yn y grŵp rhanddeiliaid, addasu'r cynllun lliniaru os oes angen a chytuno ar bwy fydd yn arwain y cyfnod cyflawni.
7. Bydd **cynlluniau prosiect** yn cael eu llunio gan arweinwyr y gwaith cyflawni ar gyfer yr opsiynau a ffefrir gan ddefnyddio fformat safonol, a fydd yn nodi costau cadarn, manteision ac amserlenni tebygol fel atodiadau i'r cynllun lliniaru pysgodfeydd.
8. Cael y **cymeradwyaethau angenrheidiol i gyflawni'r gwaith** ar y safle a **sicrhau'r adnoddau angenrheidiol** i gyflawni'r prosiect.
9. **Cyflawni'r** prosiect.
10. Cynrychiolwyr CNC a'r grŵp rhanddeiliaid i fynd ar ymweliad safle i **archwilio'r** prosiect wedi'i gwblhau.
11. Rhoi **rhaglen monitro** briodol ar waith i asesu'r manteision.

Er mwyn cyflawni'r gwaith dalgylch hwn gyda rhanddeiliaid nod CNC fydd cwblhau camau 1-4 erbyn **31$^{ain}$ Mawrth 2015**.  Gan ddibynnu pa mor gymhleth yw'r cynlluniau lliniaru amgen bydd amseriad camau 5 -11 yn amrywio ond y nod fydd cwblhau'r holl gynlluniau lliniaru amgen erbyn **31$^{ain}$ Rhagfyr 2020**.

## Cyflawni Gwaith Lliniaru Pysgodfeydd

CNC fydd yn arwain y gwaith o ddatblygu Cynllun Lliniaru Pysgodfeydd i bob dalgylch yr effeithir arno, gyda chymorth grŵp rhanddeiliaid lleol. Bydd y cynlluniau'n ddogfennau byr a fydd yn nodi'r targedau lliniaru a'r camau gweithredu y bydd angen eu cymryd. Byddant yn ddogfennau 'byw' a fydd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y rhestr opsiynau lliniaru wedi'i blaenoriaethu, yn y costau cyflawni neu yn yr amserlenni.

Yn y broses cyflawni hon bwriedir i'r grŵp rhanddeiliaid chwarae rhan bwysig wrth hwyluso'r gwaith o gynllunio a chyflawni'r cynlluniau lliniaru. Bydd y broses yn caniatáu i naill ai CNC neu grwpiau 3ydd parti gyflawni'r cynlluniau lliniaru amgen. Bydd yr arweinydd ar bob elfen o Gynllun Lliniaru Pysgodfeydd yn cael ei benderfynu ar lefel dalgylch ar sail math a maint y gwaith gofynnol. Mae'n bosibl y bydd angen i CNC arwain y gwaith o gyflawni rhai o'r opsiynau mwy technegol ond bydd hyn yn cael ei benderfynu fesul achos unigol.

Bydd arweinwyr y prosiectau'n llunio cynlluniau prosiect byr (cam 7) ar fformat safonol sy'n nodi'r costau, manteision ac amserlenni sy'n gysylltiedig â phob darn o waith. Bydd y cynlluniau prosiect yn atodiadau i'r Cynlluniau Lliniaru Pysgodfeydd a gellir eu defnyddio i lunio amserlen cyflawni gyda chostau ar gyfer pob dalgylch.

Bydd yr adnoddau a fydd ar gael oherwydd rhoi'r gorau i stocio a chau deorfeydd ar gael i gynlluniau lliniaru amgen. Gan ddibynnu ar gostau'r gwaith gofynnol, mae'n bosibl y bydd angen i CNC sicrhau adnoddau ychwanegol trwy geisiadau ar y cyd gyda phartneriaid am gyllid i sicrhau bod yr adnoddau mwyaf posibl ar gael.

Rhaglen Pysgodfeydd Cynaliadwy CNC fydd yn cydgysylltu a rheoli'r gwaith o weithredu'r gwaith hwn. Rheolwr y Rhaglen a'r bwrdd fydd yn goruchwylio'r gwaith ac yn rhoi gwybod i fwrdd CNC a'r rhanddeiliaid yn rheolaidd am ei gynnydd.

Rhagwelir, ar ôl i'r prosiectau lliniaru amgen gael eu cwblhau ym mhob dalgylch, y bydd y rhwymedigaeth i liniaru wedi'i chyflawni ac y bydd y rhaglen wedi'i chwblhau. Fodd bynnag, bydd y gwaith o gyflawni'r targedau lliniaru'n cael ei fonitro a'r angen am unrhyw ymrwymiad parhaus ar ôl 2020 yn cael ei ystyried. Ar ôl cau'r rhaglen bydd yr adnoddau a fydd ar gael oherwydd rhoi'r gorau i stocio eogiaid a chau deorfeydd yn cael eu hailgyfeirio i weithgareddau a mentrau eraill sydd â blaenoriaeth ym maes pysgodfeydd.